Lynne Neagle AC - Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
Russell George AC - Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

11 Hydref 2017

Annwyl Gadeiryddion

Fe wyddoch, o bosibl, fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi ymgymryd â rhywfaint o waith yn ddiweddar ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio cyllid a chyflawniad colegau addysg bellach. Ar 3 Gorffennaf 2017, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y sector addysg bellach am faterion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyswllt hwn, a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2017. Cawsom ohebiaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y sector addysg bellach mewn perthynas â'r materion hyn ym mis Medi 2017, ac mae'r ohebiaeth hon ynghlwm yn Atodiad A.

Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn tynnu sylw at y materion a gododd o'n gwaith ni gan y gallai'r rhain fod yn berthnasol i waith eich Pwyllgorau chi naill ai yn ystod eich trafodaethau presennol neu pan fyddwch yn trafod y maes pwnc hwn eto yn y dyfodol. Mae'r materion dan sylw wedi'u rhestru isod.

- Er bod ei threfniadau goruchwylio, ar y cyfan, yn ddibynadwy, byddai'n well pe bai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dulliau mwy hirdymor ac integredig o weithredu. Byddai hyn yn cynorthwyo colegau i bennu amcanion cyllido tymor hwy, rhoi mwy o sicrwydd ynghylch lefelau incwm ac yn eu cynorthwyo gyda'u cynlluniau busnes. Rydym yn croesawu nod Llywodraeth Cymru i adfer trefniadau cyllidebau tair blynedd gan gydnabod bod angen mwy o eglurder ynghylch yr adnoddau refeniw sydd ar gael i

Lywodraeth Cymru, er mwyn gallu cyflawni hyn.

- Cafwyd trafodaeth am gyflwr presennol yr ystâd addysg bellach, gan gynnwys diogelwch a hygyrchedd, ac roedd pryderon ynghylch y modd y mae hyn yn amrywio ledled Cymru, ac ynghylch y rhagolygon ar gyfer gwella yn y dyfodol. Rydym yn pryderu braidd nad oes digon o adnoddau i gynnal yr ystâd a'i hatal rhag dirywio ymhellach. Lleddfwyd ein pryderon gan hyder Llywodraeth Cymru y byddai cyflwr yr ystâd addysg bellach yn gwella, ac y byddai canran y sefydliadau y tybir bod eu hystâd mewn cyflwr gwael yn gostwng, ar ôl cwblhau rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a phroses Addysg Band B. Fodd bynnag, credwn fod angen monitro'r sefyllfa i sicrhau mai dyna fydd yn digwydd.

- Rydym yn croesawu'r modd y mae'r sector addysg bellach yn bwrw ymlaen â'r gwaith o roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith ac yn nodi'r ddeialog rhwng Llywodraeth Cymru a phrifysgolion a sefydliadau addysg bellach ynglŷn â datblygu gynaliadwy. Rydym hefyd yn croesawu'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn archwilio'r broses o adolygu sefydliadau a'r llythyrau cylch gwaith i danlinellu pwysigrwydd y pum egwyddor a'r saith canlyniad a gaiff eu cynnwys yn y Ddeddf.

- Roeddem yn falch o glywed am y modd y mae colegau addysg bellach yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i sicrhau gwerth am arian, yn enwedig pan fydd colegau'n rhan o grwpiau sy'n cael eu harwain gan sefydliadau addysg uwch. Nodwn y cydweithrediad ardderchog sydd ar waith drwy grwpiau fel Prifysgol y Drindod Dewi Sant, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, a hefyd Prifysgol De Cymru a Merthyr. Y tu hwnt i'r grwpiau ffurfiol hyn, rydym yn croesawu'r ffaith bod gan 11 o'r 13 coleg yng Nghymru berthynas ffurfiol arwyddocaol â phrifysgolion.

- Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r berthynas rhwng y sector ag ysgolion, yn arbennig y penderfyniad i greu rhwydweithiau Seren, sy'n dod â sefydliadau addysg bellach a phrifysgolion ac ysgolion ynghyd, i greu dyhead ymhlith pobl i gyflawni eu potensial yn llawn, nid dim ond yn academaidd ond hefyd yn alwedigaethol.

- Trafodwyd sefyllfa ariannol ehangach y sector addysg bellach gan gynnwys yr ymdrechion i leihau a rheoli costau. Rydym yn croesawu’r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad blynyddol o sefyllfa ariannol colegau addysg bellach.  Roeddem yn falch iawn o nodi bod naw coleg yn ym mand A, a bod eu sefyllfa ariannol yn dda, a bod tri arall  ym mand B, a bod camau’n cael eu cymryd i wella sefyllfa ariannol y rhain.

- Yn olaf, rydym yn croesawu’r modd y mae’r sector addysg bellach yn ymateb i’r gostyngiad yn eu cyllid a gallu’r sector i ymateb yn hyblyg ac yn gadarnhaol i hyn.  Rydym yn nodi'r gwaith sy’n mynd rhagddo rhwng y sector a Llywodraeth Cymru i ystyried strategaeth i sicrhau tegwch rhwng addysg bellach, dysgu yn y gwaith, addysg uwch ac unedau chweched dosbarth mewn ysgolion ac i gyflwyno darlun clir a sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr.

Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau hyn o gymorth ichi pan fydd eich pwyllgorau’n trafod cyllid addysg bellach.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**